

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 11fed Medi 2018 am 7.30pm yn Ysgol Cribyn

PRESENNOL

Cynghorwyr : Haf Hughes (Cadeirydd), Lynford Thomas, Gerwyn Owen, Johnny Davies, Harry Williams, Lyn Williams, Alan Henson, Glyn Davies, Daniel Evans, Owen Llywelyn

1. YMDDIHEURIADAU Y Cyng. Hywel Glyn Ifans

2. PERSONOL Dim materion personol

3. DATGELU BUDDION PERSONOL Dim i'w datgelu

4. COFNODION

i. Tynnodd Y Cyng. Glyn Davies sylw at gywiriadau i bwynt 10 iii. sef bod y tyllau yn yr hewlydd wrth Bryndolau, nid Bryngolau, a'r ail wrth hewl Brynog cyn safle'r Mart. Cadarnhodd y Clerc y byddai'n cysylltu ag Adran y Priffyrdd i nodi'r newidiadau. Wedi derbyn y cywiriadau, cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 10fed Gorffennaf, 2018 yn gywir. Cynigiwyd gan Y Cyng. Lynford Thomas ac eilwyd gan Y Cyng. Lyn Williams.

5. MATERION YN CODI

10 iv Cadarnhodd Y Cyng. Johnny Davies bod mater y draen wrth Arfryn wedi ei ddatrys a bod y gwaith wedi ei gwblhau.

6. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

Cafwyd adroddiad gan Y Cyng. Lynford Thomas am y digwyddiadau amrywiol bu'n mynychu ac yn arbennig y nifer o faterion cynllunio a oedd wedi bod yn rhan o'r gwaith hwnnw dros fisoedd yr haf. Nododd hefyd o ddiddordeb i'r cyfarfod, bod safle gwastraff Rhydeinon yn mynd i barhau ar agor, ond am lai o oriau, sef ar ddydd Mercher ac oriau estynedig dros y penwythnos.

7. CYLLID

a. Derbyniwyd yr ail daliad praespt am £3316.67 ar 31 Gorffennaf, 2018.

b. Anfonwyd sic o £75.00 i Un Llais Cymru ar gyfer anfon cynrychiolaeth i'r Gynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol ar Fedi'r 29ain. Y Cyng. Harry Williams bydd yn mynychu'r cyfarfod.

c. Cyflwynwyd adroddiad ariannol hanner blwyddyn. Derbyniwyd yr adroddiad.

ch. Cyflwynwyd Datganiad Cyllideb hanner blwyddyn ar gyfer trafod anghenion gwariant Praesept Medi 2018 – Mawrth 2019. Nodwyd y ddau bwynt canlynol:

i. Disgwylir cais gan Eglwys Ystrad ar gyfer cynorthywo gyda chostau gwelliannau i Neuadd yr Eglwys. **Penderfynwyd** cadw canran o'r Praesept ar gyfer ymateb i'r cais hwnnw.

ii. Mae wedi dod i'r amlwg nad yw gwefan y Cyngor yn ddiogel a bod angen creu cyfeiriad https. Derbyniwyd amcanbris o £120 gan Elfed Jenkins sy'n gyfrifol am

weinyddu'r wefan. **Penderfynwyd** cysylltu ag Elfed i fwrw 'mlaen â'r gwelliannau i'r wefan.

dd. Penderfynwyd trosglwyddo £200 i Gronfa'r Gadeirydd. Cynigiwyd gan Y Cyng. Owen Llywelyn ac eiliwyd gan Y Cyng. Harry Williams.

8. GOHEBIAETH

- i. Derbyniwyd llythyron diolch am nawdd wrth: Y Samariaid a Tenovus.
- ii. Derbyniwyd cais am gefnogaeth ariannol gan 'Llyfrau Llafar Cymru' i'w drafod ym mis Rhagfyr.
- iii. Daeth gwybodaeth am gyfarfod cyhoeddus Comisiynydd yr Heddlu yn Aberaeron ar Dachwedd yr 2il yn Aberaeron am 4.00. Y lleoliad i'w gadarnhau yn y cyfarfod nesaf.
- iv. Rhannwyd prif ddargynfyddiadau Ymgynghoriad Bwrdd Iechyd Hywel Dda ynglŷn ag ad-drefnu'r gwasanaeth ysbytai.

9. CYNLLUNIO

- I. **Penderfynwyd** y dylid rhannu unrhyw geisiadau cynllunio â phob aelod os bydd y dyddiad cau am sylwadau yn cwmpo cyn cyfarfodydd arferol y Cyngor. Bydd cynlluniau â dyddiad cau ar ôl y cyfarfodydd arferol yn cael eu trafod yn y cyfarfod misol yn ôl yr arfer.
- II. **A180799. Proposed conversion, extensions and alterations to the existing disused cottage to include demolition and associated works to form holiday let. Ymgeisydd:** A Lewis **Lleoliad:** Rhosygraigina, SA48 7QD Datganwyd diddordeb gan Y Cyng. Glyn Davies ac Alan Henson. Yn dilyn trafodaeth, **penderfynwyd** nad oedd unrhyw sail i wrthwynebu'r cais.

10. UNRHYW FATER ARALL

- I. **Y Wefan. Penderfynwyd** gosod datganiad ar y wefan yn nodi bod cofnodion y Cyngor ar gael yn Saesneg ar gais.
- II. Nododd Y Cyng. Glyn Davies dau fan lle mae tyllau ar yr hewl yn achosi pryder sef, yn Ffynnonoer a rhwng siop yr hen fwtsiwr Felinfach a chanol y pentre'. **Penderfynwyd** cysylltu ag Adran y Prifffyrdd i dynnu sylw at y materion hyn.

11. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Nos Fawrth, 9fed Hydref, 2018 yn Neuadd Dihewyd am 7.30pm.

